# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 14/07/15, Ysgol Nefyn

---

Presennol

| | | |
|---|---|---|
| Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Bleddyn Williams |
| Guto Williams | John Thomas | Huw Williams |
| Alan Jones | Megan Williams | Catrin Roberts |

1. Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Dafydd Rhun Griffiths | G Emlyn Jones | Ashley Hughes |
| Roberts Jones | | |

2. Datgan buddiant ariannol neu bresennol

Bleddyn Williams – Cysylltiad presennol (cynllunio)

3. Cofnodion 12fed o Fai

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. Croesawu'r clerc newydd

Pawb yn bresennol wedi cytuno i'r clerc gael cyfrifiadur ac argraffydd. Hefyd Megan yn awgrymu cabinet ffeilio. Seimon am holi am brisiau ac archebu.

5. Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2015/16

Arfon wedi awgrymu yn y cyfarfod diwethaf y bysa'n fantais cael Is-gadeirydd o bob pentref, er mwyn datrys problemau yn gyflymach. Wrth neud hyn bydd yn bosib cynnal cyfarfod brys yn nol yr angen ar faterion na ellir disgwyl tan y cyfarfod misol, e.e. talu biliau a.y.b.

Guto Williams – Edern

John Thomas – Morfa Nefyn

6. Aelodau newydd y Cyngor

Hysbysiad am sedd wag Cyngor Tref Nefyn a Morfa Nefyn wedi mynd fyny yn y tri phentref (Edern, Nefyn a Morfa Nefyn). Dyddiad cau 25/07/15.

7. Trefniadau bancio, manylion cyswllt

Angen trefnu ymweld â HSBC er mwyn newid a diweddaru rhestr caniatáu arwyddo sieciau.

8. Offer Chware Parc y Ddol

Angen cysylltu eto a Proludic a gyrru lluniau i ddangos y gwall. Doedd Sarah heb dderbyn ymateb hyd at 10/07/15.

9. Llwybrau & Mynwentydd

Sefyllfa bresennol wedi ei roi gan y Cynghorydd Gruffydd Williams. Angen holi Sarah ynglŷn â wal y fynwent.

10. Cronfa Loteri – Cymunedau Arfordirol

Cliffs Morfa Nefyn wedi cytuno i dorri congl er mwyn lledir llwybr yr arfordir. Am ofyn i Brady wneud gwaith tebyg i'r gwaith relings ar Y Groes Nefyn.

11. Llyfrgell Nefyn

Ddim yn edrych yn addawol i Lyfrgell Nefyn, cyngor Gwynedd wedi cynnig rhoi'r adeilad i Gyngor Tref Nefyn. Ond angen ystyried yn y pendraw pwy fydd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth gan gynnwys talu cyflogau. Yw hyn yn gost flynyddol mae Cyngor Tref Nefyn eisiau ei fabwysiadu?? Bysa'r wir gost flynyddol yn gallu fod oddeutu £6 mil y flwyddyn.

12. Cae aml ddefnydd

Bryn Mynarch – Cyng. Gruffydd Williams wedi rhoi cais am arian grant o £15 mil gan Mantell Gwynedd ac £10 mil gan Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn.

13. Golau Stryd Morfa Nefyn

Angen holi Sarah am y diweddariad.

14. Ceisiadau Cynllunio

Y ceisiadau a dderbyniodd mewn amser i roi ar yr agenda wedi pasio'r dyddiad sylwadau (21 diwrnod) Cyngor Gwynedd.

Derbyniodd dau gais ar y 9fed Gorffennaf. C15/0409/42/LL a C15/0689/42/LL. Dim gwrthwynebiad gan Gyngor Tref Nefyn.

Ceisiadau am Gyfraniad (yn ychwanegol i'r agenda)

Clwb Pêl-droed Nefyn wedi gofyn am gyfraniad tuag at waith cynaliadwy. Pawb wedi cytuno i roi'r arian yn llawn (£825.00).

Alan Jones yn gofyn am gyfraniad i dalu am y 'keyfobs' i'r defibrillators yn Edern, Nefyn a Morfa Nefyn.

Materion brys

- Llythyr wedi ei dderbyn gan Robyns Owen am gostau cyfreithiol ynglŷn â'r Siop Siarad (gronfa loteri yn talu). Pawb yn cytuno i dalu.
- Llythyr arall gan Robyns Owen ynglŷn â chostau cyfreithiol ynglŷn ar bont ar dir Brian a Janet Hughes (llwybr Bryn Mynach)
- Cais gan Mr Huw Archer i osod mainc er cof, mi fydd lle ar gael ar benrhyn Nefyn ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.
- 2 anfoneb wedi ei dderbyn ynglŷn â gwaith ar Y Groes Nefyn ac wedi ei chaniatáu i'w dalu.

C.E.Brady

Reuben Hughes

- Siop Siarad, les wedi ei arwyddo am ddwy flynedd a thaliad cyfreithwyr wedi ei dalu.
- Cliff angen paent i orffen peintio toiledau Morfa Nefyn (traeth) – gwybodaeth gan Elfed bod paent ar gael yn siop Spar – Arfon i gysylltu â Cliff.
- Toiledau Morfa Nefyn – Catrin am gysylltu â Twnti ynglŷn â thorri drain o amgylch y toiled. Guto yn awgrymu bod angen diggar i wneud y gwaith clirio a'r fysa fo yn neud y gwaith.
- Cytundeb wedi ei wneud gyda Dunn & Ellis i yrru copi o 'payslips' Simon Jones cyn pob cyfarfod er mwyn cytuno ar daliad cyn gynted a bo'r modd.

Cyfarfod nesa i'w drefnu